**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 27 Mehefin 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd A Pugh (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
| --- | --- | --- |
| C R Doyle | D W Helliwell | Y V Jardine |
| L R Jones | G J Tanner | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
| --- | --- |
| Rachel Moxey | Pennaeth Tlodi a'i Atal |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Sandie Richards | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P Downing a/ac B Hopkins

---

**5 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**6 Cofnodion.**

Penderfynwyd llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 25 Ebrill a 24 Mai 2018 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

**7 Cylch gorchwyl. (Er gwybodaeth)**

Amlinellodd y Cadeirydd y Cylch Gorchwyl i'r pwyllgor 'er gwybodaeth'.

**8 Cynllun Gwaith 2018-2019 (Drafodaeth).**

Rhoddodd y Pennaeth Tlodi a'i Atal gyflwyniad i'r pwyllgor am Gynllun Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2018-2019.

Trafodwyd y canlynol yn y cyflwyniad: -

- Ystyriaethau;
- Cynigion ar gyfer 2018-2019;
- Comisiwn y Gwirionedd am Dlodi/Cynllun Gweithredu Digartrefedd;

- Benthyca llog uchel;
- Dinas Hawliau Dynol;
- Cyflogadwyedd.

Trafododd y pwyllgor waith sy'n parhau o'r PDChP diwethaf; canolbwyntio ar lai o bynciau; y cynigion, y canlyniadau a'r rhaglen waith ar gyfer Comisiwn y Gwirionedd am Dlodi/Cynllun Gweithredu Digartrefedd; y rhaglen waith a'r canlyniadau ar gyfer benthyca llog uchel; y rhaglen waith a'r canlyniadau ar gyfer Dinas Hawliau Dynol; ac, os oedd amser yn caniatáu, y rhaglen waith a'r canlyniadau ar gyfer cyflogadwyedd.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys y cyflwyniad;
2) Cynnwys y pynciau canlynol yn Rhaglen Waith 2018-2019:
   - Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Digartrefedd
   - Benthyca llog uchel
   - Comisiwn y Gwirionedd am Dlodi
   - Dinas Hawliau Dynol
3) Cadw pwnc cyflogadwyedd wrth gefn, os oedd amser yn caniatáu;
4) Y byddai'r Pennaeth Tlodi ac Atal yn cylchredeg sleidiau'r cyflwyniad diwygiedig i'r pwyllgor;
5) Adrodd am gynllun gwaith diwygiedig yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

## 9 Amser Cyfarfodydd y Dyfodol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018-2019

**Penderfynwyd** y byddai cyfarfodydd y pwyllgor yn ystod blwyddyn ddinesig 2018-2019 yn dechrau am 4pm.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.00 pm

**Cadeirydd**